OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 56

# Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016

## RHAN 8

## Ymchwiliadau

**Cyfarfodydd cyn-ymchwiliad**

**31.**—(1) Caiff y person penodedig gynnal cyfarfod cyn-ymchwiliad cyn yr ymchwiliad, i ystyried beth ellir ei wneud er mwyn sicrhau y cynhelir yr ymchwiliad mewn modd effeithlon a didrafferth.

(2) Rhaid i berson penodedig roi dim llai na dwy wythnos o rybudd ysgrifenedig o unrhyw gyfarfod cyn-ymchwiliad y mae'r person penodedig yn bwriadu ei gynnal o dan baragraff (1), i'r canlynol—

(a) y ceisydd;

(b) yr awdurdod cynllunio lleol;

(c) unrhyw berson a wahoddwyd gan y person penodedig i gymryd rhan yn y cyfarfod cyn-ymchwiliad.

(3) Pan fo cyfarfod cyn-ymchwiliad wedi ei gynnal yn unol â pharagraff (1), caiff y person penodedig gynnal cyfarfod cyn-ymchwiliad pellach, a rhaid iddo drefnu i roi cymaint o rybudd o'r cyfarfod cyn-ymchwiliad pellach ag sy'n ymddangos yn angenrheidiol.

(4) Y person penodedig—

(a) a fydd yn llywyddu mewn unrhyw gyfarfod cyn-ymchwiliad;

(b) a fydd yn pennu'r materion sydd i'w trafod a'r weithdrefn sydd i'w dilyn;

(c) caiff ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson sy'n bresennol yn y cyfarfod cyn-ymchwiliad yn ymadael os yw'n ymddwyn mewn modd sydd, ym marn y person penodedig, yn tarfu ar eraill; a

(d) caiff wrthod caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd nac ychwaith fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod cyn-ymchwiliad pellach; neu

(e) caiff ganiatáu i'r person hwnnw ddychwelyd neu fod yn bresennol ar y cyfryw amodau, yn unig, a bennir gan y person penodedig.